*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2)(d) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 21A i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 sy'n darparu ar gyfer rhyddhad rhag treth trafodiadau tir ar gyfer trafodiadau cymhwysol o dir mewn safle treth arbennig.

Mae rheoliad 2 yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 21A i estyn y rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig i safleoedd pellach yn Ynys Môn, a pharagraff 5 i gynnwys y cyfnod rhyddhad ar gyfer y safle treth arbennig newydd hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2)(d) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *21 Tachwedd 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 30(6) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 79(2)(d) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am hanner nos ar 21 Tachwedd 2025.

---

(**1**) 2017 dccc 1.

**Addasu rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig**

**2.**—(1) Mae Atodlen 21A([1]) i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff 2(b) (ystyr safle treth arbennig) mewnosoder—

> "(c) Rheoliadau Dynodi Safleoedd Treth Arbennig (Porthladd Rhydd Ynys Môn) 2025 (O.S. 2025/1079) fel y'u gwnaed ar 14 Hydref 2025."

(3) Ar ôl paragraff 5(b) (ystyr cyfnod rhyddhad) mewnosoder—

> "(c) i'r graddau y mae'r cyfeiriad yn ymwneud â'r safle treth arbennig a grybwyllir ym mharagraff 2(c), yw'r cyfnod sy'n dechrau â 21 Tachwedd 2025 ac sy'n dod i ben â 30 Medi 2029."

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(1) Mewnosodwyd Atodlen 21A gan O.S. 2024/1193 (Cy. 195), ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2025/54 (Cy. 14).